

## CELF BERFFORMIADOL

### Cyflwyniad

*"To be a performance artist, you have to hate theatre. Theatre is fake: there is a black box, you pay for a ticket, and you sit in the dark and see somebody playing somebody else's life. The knife is not real, the blood is not real, and the emotions are not real. Performance is just the opposite: the knife is real, the blood is real, and the emotions are real. It's a very different concept. It's about true reality."*

Maria Abravomic.

Yn y clip mae Eddie yn tanlinellu prif nodweddion Celf Berfformiadol. Mae'n nodi'n glir mai'r broses o 'wneud' ydyw ac nid ail-adrodd, ail-ddangos, cynrychioli. Mae'n fyw ac yn real. Yn digwydd o fewn amser go iawn. Gweithredoedd uniongyrchol ydyw. Nid proses o ymarfer testun neu ail-greu naratif yw Celf Berfformiadol ond yn hytrach arbrawf gyda rhan o fywyd y perfformiwr.

Mae'r gwaith yn ymwneud yn uniongyrchol gydag elfennau amser, gofod, deunyddiau a gweithredoedd a gan fod y gwaith yn dibynnu yn llwyr ar y perfformiwr rhaid holi sawl cwestiwn:

- Beth sy'n diffinio gweithred fel celf berfformiadol?
- Ym mha ffordd mae'r weithred yn wahanol i weithredoedd bob dydd?
- Beth sy'n dynodi'r gwahaniaeth?
- Sut mae rhywun yn gwybod pryd mae'r perfformiad yn dechrau ac yn gorffen?

Wrth gwrs mae cyd-destun y gweithredoedd yn allweddol o ran sicrhau bwriad uniongyrchol i'r perfformiad.

- Ym mha ffordd mae'r lleoliad yn diffinio'r bwriad?
- Sut mae'r perfformiwr yn gallu defnyddio'r gofod er mwyn fframio'r perfformiad?
- Sut mae'r lleoliad yn effeithio'r gwylwr?

### Effaith ar y gwylwr

Trwy greu awyrgylch clud, lle mae'r gynulleidfa yn agos iawn at y perfformiwr ceir dynamig gwahanol iawn. Mae'r gwylwr yn uniaethu gyda'r perfformiwr, y corff yn dechrau efelychu tensiynau/patrymau anadlu'r actor. Eto mae'r actor yn ymwybodol iawn o ymateb y gynulleidfa, yn teimlo eu hemosiwn sy'n unigryw iawn. Mae'r synhwyrau yn cael eu herio gydag ymateb mwy dwys - cyffro, pryder, diflastod, rhyddhad, ofn, tristwch.

Mae'r actor mewn darn o Gelf Berfformiadol yn dewis rhywbeth / pwnc / ffocws y mae'n awyddus i archwilio yn fanylach, gwneud rhywbeth na fyddai'n gallu gwneud mewn bywyd pob dydd, neu rhywbeth y mae'n awyddus i dynnu sylw cyhoedd ato.

Sut mae datblygu'r gallu i weithio yn y ffordd yma?

Fel actorion sut allwch chi ddechrau arbrofi gyda'r math hwn o berfformio?

Sut mae cymryd risg a symud i dir mwy ansefydlog ac wynebu'r posibilrwydd o fethiant?

Sut mae dewis ffocws?

Sut mae dewis lleoliad / gofod?

### **Diffiniad o gelf berfformiadol**

*Performance art is a **performance** presented to an **audience** within a fine art context, traditionally **interdisciplinary**. Performance may be either scripted or unscripted, random or carefully orchestrated; spontaneous or otherwise carefully planned with or without audience participation. The performance can be live or via media; the performer can be present or absent. It can be any situation that involves four basic elements: time, space, the performer's body, or presence in a medium, and a relationship between performer and audience. Performance art can happen anywhere, in any type of venue or setting and for any length of time. The actions of an individual or a group at a particular place and in a particular time constitute the work.*

## Edrychwch ar yr engrheifftiau yma o ddarnau o Gelf Berfformiadol

### **Celf/Bywyd: Perfformiad Blwyddyn (a adnabyddir fel *Rope Piece*) (Gorffennaf 4ydd 1983 – Gorffennaf 3ydd 1984)**

**Artist:** Linda Montano and Tehching Hsieh

*Yn ystod y gwaith yma a barhaodd am flwyddyn roedd Montano a Hsieh wedi eu clymu at ei gilydd gyda rhaff wyth troedfedd o hyd. Roeddynt yn bodoli yn yr un gofod ond heb unwaith gyffwrdd a'i gilydd. Syniad gwreiddiol Hsieh oedd bod y rhaff yn cynrychioli brwydr bodau dynol gyda'i gilydd a'r problemau sydd ganddynt o ran cysylltiad cymdeithasol a chorfforol. Wrth i'r gwaith esblygu daeth mwy o ystyr i'r rhaff. Roedd yn rheoli ond hefyd yn ehangu bywydau'r ddau artist a daeth yn symbol gweledol o'r berthynas rhwng dau berson. Efen hollbwysig i'r gwaith oedd ei fod wedi para am 365 niwrnod gan godi'r darn o lefel perfformiad i fywyd gwirioneddol. Ni ellid gwahanu bywyd a chelf yn y gwaith gan mai byw oedd y gelf. Yn ôl Hsieh petai'r gwaith ond wedi para am bythefnos, byddai'n debycach i berfformiad, ond roedd gwneud hyn am flwyddyn yn rhoi, "profiad gwirioneddol o amser a bywyd."*

Cliciwch ar y cyswllt yma i weld llun o Linda Montano a Tehching Hsieh yn ystod y perfformiad.

[http://www.artpractical.com/uploads/columns/1246\\_1246/Linda\\_Mary\\_Montano-Rope\\_Piece.jpg](http://www.artpractical.com/uploads/columns/1246_1246/Linda_Mary_Montano-Rope_Piece.jpg)

Rhaid dal eich bys ar fotwm **Ctrl** pan yn clicio.

### **Cut Piece (1964)**

**Artist:** Yoko Ono

*Perfformiwyd **Cut Piece** gan Yoko Ono am y tro cyntaf yn 1964, ac roedd yn wahoddiad i'r gynulleidfa i gymryd rhan mewn dadorchuddiad o gorff benywaidd fel y gwnaed yn hanesyddol gan artistiaid. Wrth greu'r profiad byw yma roedd Ono yn gobeithio y gallai ddileu'r niwtraliaeth a'r anhysbysrwydd sy'n cael ei gysylltu fel arfer oherwydd gwrthrycholiad menywod mewn celf gan gymdeithas. Ar gyfer y gwaith yma eisteddodd Ono yn dawel ar y llwyfan wrth i'r gwylwyr gerdded ati a thorri ei dillad oddi arni gyda siswrn. Roedd hyn yn gorfodi pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu voyeuriaeth a hefyd i ystyried sut oedd bod dim ond yn dyst i hyn o bosib yn niweidiol o ran canfyddiad. Yn ogystal â bod yn ddatganiad benywaidd cryf am beryglon gwrthrycholiad, daeth yn gyfle i'r artist ac aelodau'r gynulleidfa i fod yn greawdwyr ac yn waith celf yr un pryd.*

Cliciwch ar y cyswllt yma i weld llun o Yoko Ono yn ystod y perfformiad.

<https://i.pinimg.com/736x/a2/92/cd/a292cd64ddd218e1866d030bdc2099b5.jpg>

Rhaid dal eich bys ar fotwm **Ctrl** pan yn clicio.

*Perfformiwyd yn Neuadd Gyngerdd Yamaichi, Kyoto, Japan 1964*

Wrth gynllunio darn o Gelf Berfformiadol rhaid i chi ystyried syniad/safbwynt/ffocws a fydd yn denu sylw eich cynulleidfa.

Er mwyn denu sylw eich cynulleidfa rhaid cyfathrebu gwybodaeth / neges sydd yn ymgorffori agweddau sydd yn bwysig iddynt. I'r rhan fwyaf o bobl mae themâu yn ymwneud â theulu, cariad, perthynas, marwolaeth, arian.

Bydd ansawdd eich perfformiad yn dibynnu ar sawl ffactor:

1. Rhaid i'r gwaith gael ei berfformio mewn ffordd gryno er mwyn sicrhau bod y thema neu'r syniad yn glir. Mae gormod o amwysedd yn creu aneglurder a bydd y gynulleidfa yn teimlo rhwystredigaeth.
2. Rhaid diffinio'r gofod actio yn ofalus. Gall hyn fod yn llwyfan neu'n ystafell benodol neu leoliad diffiniedig y tu allan.
3. Rhaid bod y gwisgoedd a'r propiau yn briodol i'r gweithgaredd gan sicrhau bod yr actor yn gallu ymgorffori'r cymeriad neu'r cysyniad yn llwyr.
4. Rhaid talu sylw i amseriad. Rhaid iddo fod yn amser go iawn a bod y thema yn gallu cael ei gyfathrebu yn llwyr.

## CELF BERFFORMIADOL

### Tasg 1

Mewn parau rydych yn mynd i berfformio darn o Gelf Berfformiadol sydd yn canolbwyntio ar ryw agwedd o fywyd sydd o ddiddordeb i chi.

Dewiswch thema / ffocws, defnyddiwch y nodiadau a'r wybodaeth uchod er mwyn cynllunio a chreu eich gwaith.....gellir ystyried agweddau megis:

- Cymreictod
- Dylanwadau
- Pwer y cyfryngau
- Diweithdra
- Terfysgaeth

*Dilynwch y pwyntiau uchod er mwyn cael siâp a ffurf.*

Perfformiwch eich darn.

Derbyniwch adborth ar eich gwaith.

### Tasg 2

Dywedir fod Celf Berfformiadol yn symudiad sydd wedi ffynnu ar gyfnodau o wrthdaro cymdeithasol ac aflonyddwch gwleidyddol. Yn y gorffennol mae artistiaid celf berfformiadol wedi rhoi sylw i bynciau megis gormes, tlodi a mewnfudiad.

Y tro hwn yn hytrach na dewis agwedd o fywyd sydd o ddiddordeb i chi dewiswch bwnc sydd yn ymwneud ag agwedd gymdeithasol neu wleidyddol.

*Gan ystyried cynnwys y darn ffilm a chofio'r pwyntiau a nodwyd eisoes a'r diffiniad o gelf berfformiadol cynlluniwch a chrëwch ddarn pellach o waith yn yr arddull hwn.*

Gwefan ddefnyddiol:

[www.theartstory.org/movement-performance-art.htm](http://www.theartstory.org/movement-performance-art.htm)

Clip:

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Celf%20Berfformiadol%20Cut%202.C.mov>